Clerc Ysgol – Swydd Barhaol – Yn Ystod Tymor 37 awr yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn (mae peth hyblygrwydd am oriau gwaith ond yr oriau gwaith a ffafrir fyddai 8.00am i 4.00pm)

Cymuned Ddysgu Abertyleri

NJC Gradd 5 (£25,409 - £28,371 pro rata)

Angen i ddechrau ym Medi 2023

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri yn dymuno penodi swyddog gweinyddiaeth busnes gwybodus a phroffesiynol i weithio o fewn y Tîm Busnes yn seiliedig i ddechrau ar gampws Stryd Tyleri.

Bydd gan ein ymgeisydd delfrydol frwdfrydedd, sgiliau gweinyddiaeth a chyfathrebu rhagorol, gan roi sylw mawr i fanylion. Bydd ganddo/ganddi y gallu i drefnu a chofnodi amrywiaeth o gyfarfodydd lefel uchel, gan weithio gydag uwch arweinwyr, llywodraethwyr a rhanddeiliaid ehangach. Gallant ddangos creadigrwydd yn eu dull o ddatblygu'r rôl gyda lefelau da o sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a dadansoddi ynghyd â pheth profiad mewn gweinyddiaeth ariannol. Byddai profiad o weithio gydag asiantaethau cyflenwi a threfnu staff llanw yn fanteisiol ond nid yn hanfodol gan y rhoddir hyfforddiant llawn.

Bydd ef/hi yn fodel rôl i ddysgwyr, cydweithwyr a rhanddeiliaid allanol gyda dull gweithredu hyblyg i ateb gofynion swyddogaeth cymorth busnes sy'n esblygu gyda ffocws cryf ar ymgysylltu â'r gymuned.

Rhaid i'r ymgeisydd fod yn fodlon gweithio ar draws y cyfnodau a bod ar gael i weithio tu allan i oriau arferol fel sydd angen gyda hysbysiad perthnasol.

Yn ôl am hyn bydd deiliad y swydd yn gweithio gyda thîm cefnogol. Bydd yn datblygu profiad ym mhob agwedd o fywyd ysgol a bod â mynediad i gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus.

I gael mwy o wybodaeth ewch i'n gwefan – www.abertillery3-16.co.uk neu ddod o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol @ALC3to16. Mae'n ofyniad cyfreithiol arnom i chi roi tystiolaeth o'ch hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, gofynnir i chi hefyd roi dogfennau priodol tebyg i'ch tystysgrif geni lawn/pasbort/trwydded gwaith yn unol â Deddf Lloches a Mewnfudo 1996.

Mae Cymuned Ddysgu Abertyleri yn ymroddedig i ddiogelu a llesiant ein dysgwyr a rydym yn cydymffurfio'n llawn gydag ymarfer recriwtio diogelwch. Cynhelir

gwiriadau cyn-cyflogaeth cyn y cynigir unrhyw benodiad ac mae pob swydd yn amodol ar gliriad estynedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dyddiad Cau: 12pm ddydd Gwener 26 Mai. Cynhelir cyfweliadau yn yr wythnos yn dechrau 5 Mehefin 2023.

Ar ôl i chi ei lenwi, gofynnir i chi ddychwelyd y ffurflen gais drwy e-bost at recruit@abertillery3-16.co.uk